

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>17 Tachwedd, 2022</b>
<b>PWNC</b>	<b>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Enwebu Swyddog i'r Swydd</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr</b>

1. Dan adran 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gofyn i'r Cyngor enwebu un o'u swyddogion i swydd statudol "Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd". Mae gofyn hefyd i'r cyngor roi digon o gymorth i'r swyddog allu gwneud ei waith.

2. Mae'r penodiad i'w wneud gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Cyngor.

3. Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ydi:

a) Rhoi cymorth a chynghor

- i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd,
- i bwyllgorau'r awdurdod ac i aelodau o'r pwyllgorau hynny,
- i unrhyw gydbwyllgor
- i aelodau a swyddogion y Cyngor mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgorau craffu
- i bob aelod o'r Cyngor mewn perthynas â'u gwaith

b) Hybu rôl y pwyllgorau craffu

c) Rhoi adroddiadau am nifer a graddau'r staff mae ei angen i gyflawni ei ddyletswyddau.

4. Ers i'r gofyn fod yn statudol yn 2012, pennodwyd Pennaeth yr Adran Strategol a Gwella i weithredu fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Ers 2015, yn sgil ymuno dwy adran, rhoddwyd y cyfrifoldeb i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.

6. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol fod Ian Jones wedi ei benodi fel Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn ddiweddar.

7. Rwy'n argymhell felly bod y pwyllgor yn dynodi'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Ian Jones, yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor.